

Pa ddylanwad gafodd teulu'r Penrhyn ar y gymuned leol?

Gan Callum Jones Bl.6

Walter Speed



Roedd Walter Speed, yn ôl cyfrifiad 1871, yn enedigol o Great Abington yn Cambridge, ac roedd yn arddwr enwog iawn. Bu'n gweithio fel garddwr yn Stratfield ac yn yr Iwerddon, cyn cychwyn ar ei waith fel pengarddwr yng Nghastell Penrhyn tua 1862, bu'n gwasanaethu yno am dros 58 o flynyddoedd.

Roedd yn briod a Charlotte, ond bu hi farw ym 1889 ar ôl rhoi genedigaeth i bedwar ardddeg o blant. Roeddent yn byw ar dir Castell Penrhyn mewn bwthyn a enwyd yn Gerddi'r Penrhyn.



Derbyniodd Walter Speed fedal, sef VMH (Victoria Medal for Horticulture) gan y Frenhines Victoria, roedd ymysg y garddwyr gorau o'i genhedlaeth.



Roedd yn arferiad i enwogion a theuluoedd brenhinol i blannu coeden yng ngerddi Castell Penrhyn. Yma gwelwn Walter Speed yn cynorthwyo Carmen Silva y frenhines o Roumania i blannu coeden yn ystod ei hymweliad â Chastell Penrhyn ym 1890.



Bu farw Walter Speed ym 1921, a chladdwyd ef yn ur un bedd a'i wraig Charlotte, a'i blant Rosa, Charlotte Flora, William a Walter.

Seremoni Plannu Coeden



Ar brynhawn dydd Mercher, Tachwedd 7fed, planwyd coeden (abies nordmandiana) yma yn Ysgol Llandygai fel rhan o gynllun Ysgol Werdd / Treftadaeth yr ysgol. Planwyd coeden gyffelyb yng ngerddi Castell Penrhyn yn 1890 gan Carmen Silva, sef brenhines Roumania.



Daeth cyfle i rai o blant yr ysgol ail actio sefyllfa plannu'r goeden yn 1890 wedi eu gwisgo yn nillad y cyfnod (gan efelychu'r llun), gyda swyddogion o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn bresennol.

Roedd holl blant yr ysgol yn bresennol i arsylwi'r plannu a daeth cynrychiolaeth o Bwyllgor yr Ysgol Werdd ac aelodau o'r llywodraethwyr a'r Gymuned yn ogystal. Roeddem hefyd yn ddiolchgar i Mr John Dilwyn o'r Archifdy am ddod draw i weld y plannu ac hefyd ein cynorthwyo gyda dogfennaeth berthnasol. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr, ac rydym yn hynod ddiolchgar i'r Ymddiriedolaeth am roi benthyg y dillad, ac am ddod a'r rhaw wreiddiol a ddefnyddiodd Carmen Silva ym 1890.

Diolchwn hefyd i Edmwnd Douglas Pennant am ei eiriau caredig ar y diwedd. Mae'r abies yn goeden eithaf gwydn, ac er bod y tyfiant cynnar yn gallu bod yn eithaf araf, bydd y goeden wedyn yn ffynnu ac yn tyfu i gryn uchter. Gobeithiwn bydd y plant yn gwneud eu gorau glas er mwyn gofalu am y goeden yn syth ar ôl y plannu. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mike, garddwr presennol y Castell am ei gyngor a'i ddi-ddordeb yn y brosiect, ac i Marian Gwyn am ein cynorthwyo gyda'r cefndir.



Dylanwad Teulu'r Penrhyn Family ar Walter Speed, y Prif Arddwr.

Trwy ddylanwad teulu'r Penrhyn, daeth yn arddwr enwog iawn gan bod gerddi Penrhyn yn un o'r tair prif ardd ym Mhrydain, felly, byddai llawer o foneddigion yn ymweld â'r lle, hefyd, roedd yn draddodiad gan deulu'r Penrhyn i'w gwestai pwysig blannu coeden yn yr ardd (h.y. Carmen Silva, Brehines Romania a'r Frenhines Victoria a oedd yn adnabyddus iawn a gyflwynodd iddo Fedal Fictoria am Arddwriaeth.) Roedd swydd Walter Speed fel Prif Arddwr yn golygu ei fod yn perthyn i'r Dosbarth Canol yn hytrach na bod yn weithiwr cyffredin e.e. Chwarelwr.

Cafodd ei holl blant swyddi gan yr Arglwydd Penrhyn, roedd gan rai swyddi oedd yn gysylltiedig â'r Chwarel ac roedd un yn gweithio yn Port Penrhyn. Rhoddodd y Pennants hyd yn oed fwrdd arbennig iddo fel gallai ei holl deulu eistedd i lawr i fwyta gyda'i gilydd. Felly, roedd yr Arglwydd Penrhyn yn gofalu am ac a diddordeb personol yn ei holl weithwyr. Ai'r arian o'r Chwaereli tuag at gynnal a chadw Castell Penrhyn a Gerddi Penrhyn fel y gallai'r Arglwydd Penrhyn gyflogi'r Pen Garddwr gorau er mwyn gallu cystadlu gyda'r holl erddi eraill ym Mhrydain, sy'n dangos pwysigrwydd y Chwarel a holl weithwyr y Chwarel.

Gan Callum J